

Addysg / Education



Pennaeth Addysg (Dros Dro) /
Head of Education (Interim) – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Garem Jackson**
Ein Cyf / Our Ref: **GJ/AS**
Eich Cyf / Your Ref:
GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

14 Medi 2017

At: Rhieni, gwarchodwyr, staff ac undebau Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn

Par: Penderfyniad ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn

Fel sy'n hysbys, ym mis Mai eleni, gofynnodd llywodraethwyr Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn i Adran Addysg Cyngor Gwynedd gynnal ymgynghoriad ar sefydlu trefniant ffederasiwn rhwng yr ysgolion o fis Hydref 2017 ymlaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol gyda chyrrff llywodraethol a chynghorau ysgol y ddwy ysgol rhwng 8 Mehefin a 6 Gorffennaf 2017.

Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, hoffwn eich hysbysu fod Adran Addysg Cyngor Gwynedd wedi penderfynu **cymeradwyo'r** cynnig i ffederaleiddio Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn erbyn 30 Hydref 2017.

Bydd ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn golygu cydweithio agosach drwy rannu un pennaeth ac un corff llywodraethol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o fanteision eraill i ffederaleiddio, yn cynnwys sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgolion i'r dyfodol a manteision cyllidol i'r ddwy ysgol drwy iddynt rannu un pennaeth a chorff llywodraethol. Bydd yn golygu y gellir cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau a chyllidebau'r ysgolion.

Ni fydd ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn golygu unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant.

Bydd 'Ffederasiwn Cysgod y Foel' felly yn weithredol o **30 Hydref 2017** ymlaen, gydag un Pennaeth, sef Bethan Emyr Jones, yn gyfrifol am arwain Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn.

Yn gywir,

Garem Jackson

Garem Jackson
Pennaeth Addysg (Dros Dro)

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Addysg / Education



Pennaeth Addysg (Dros Dro) /
Head of Education (Interim) – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Garem Jackson**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **GJ/AS**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

14 September 2017

To: Parents, guardians, staff and unions of Ysgol Bro Tryweryn and Ysgol Ffridd y Llyn

Re: Decision on the proposal to federate Ysgol Bro Tryweryn and Ysgol Ffridd y Llyn

As you may be aware, in May this year, the governors of Ysgol Bro Tryweryn and Ysgol Ffridd y Llyn asked Gwynedd Council's Education Department to consult on establishing a federation arrangement between the two schools from October 2017 onwards. The statutory consultation was held with the governing bodies and school councils of both schools between 8 June and 6 July 2017.

Following full consideration of the responses received to the consultation, I wish to inform you that Gwynedd Council has decided to **approve** the proposal to federate Ysgol Bro Tryweryn and Ysgol Ffridd y Llyn by 30 October 2017.

The formal federation of both schools will entail closer collaboration through sharing a headteacher and a single governing body. In addition, federation also has several benefits, including stability in the schools future leadership and financial benefits for both schools as they share one headteacher and governing body. It will mean being able to co-ordinate the best use of school resources and budgets.

Entering a federation arrangement for both schools **will not** mean any significant changes for parents or children.

The federation between the two schools, 'Ffederasiwn Cysgod y Foel' will be implemented from **30 October 2017** onwards, with one Headteacher, namely Bethan Emyr Jones, responsible for leading Ysgol Bro Tryweryn and Ysgol Ffridd y Llyn.

Yours sincerely,

Garem Jackson

Garem Jackson
Head of Education (Interim)

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk